# GALARNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

## DDEG O DDYNION,

A FODDODD YN AFON TAWE,

*Wrth Groesi o Lansamlet i Abertawe,*

Ar eu dychweliad o'r Cyfarfod,

**Mewn Bad,**

***PA UN A DRODD,***

AC O DDEUTU BUMP AR HUGAIN YNDDO,

Y RHAI

## A SAFIWYD OND DEG,

*Ar brydnawn dydd Sul, Gorphenhaf* 13, 1823.

Ar y Dôn a elwir "BRYNIAU'R IWERDDON."

---

GAN STEPHEN JONES,

*Llanfaeryw.*

---

*ABERHONDDU,*

*Argraphwyd gan Priscilla Hughes.*

1823.

X2052 56405



# GALARNAD, &c.

1 HOLL drigolion daear, pa beth yw'r galar mawr,
A lanwodd ein cym'dogaeth mor helaeth yma 'nawr,
A ydyw'r gelyn, angeu, o hyd er llid gerllaw,
Yn rhoddi'r fath farwolaeth, a mawr brudd alaeth braw.

2 Ni's gwyddom pryd raid gorfod myn'd dan ei ddyrnod ddu,
Fe allai 'nghanol bywyd a iechyd ffraethlyd fri,
Yr y'm ni yn addfedu bob munud, a pob awr,
Yn barod oll i lithro yn fychain ac yn fawr.

3 Nid y'm ni ddim yn gywbod pa le y daw e'chwaith,
Ai yn ein trigfa gartref, neu ar y moroedd maith,
Fe allai 'mhell o gartre' ar siwrneu daw e'n siwr,
Fe allai ar y mynydd, fe allai ar y dw'r.

4 O ddeutu tref Llanelli mai galar yn ddilai,
A thref Caerfyrddin fwynedd yn rhyfedd gydâ rhai
Yn Nghastell-Nedd mae llawer, a'i bronau oll yn brudd,
Ond cofiwn Abertawe sy'n ŵylo nos a dydd.

5 Wrth gofio eu cyfeillion, a rhai perth'nasau gwiw,
A ddarfu fyn'd ar Sabbath i wrando gair ein Duw,
Fel ddarfu rhai'n i gychwyn heb achwyn yn ddible,
Nad oeddynt oll mewn iechyd yn myned maes o'r dre'.

6 A myn'd tua Llansamled a wnaethai rhai'n bob un,
I wrando WILLIAM MORRIS, un melus ddawnus ddyn,
Pan 'roent hwy'n dyfod adref heb feddwl am fath frad,
O ddeutu bump ar hugain a ddarfu fyn'd i'r bâd.

7 Ac yna ar naill ochr y gwyr a ddarfu ffoi,
Nes oedd y bâd yn siglo, yn wir, a dechreu [illegible]

Wrth ei waith e'n mheulyd mor aethlyd bu y ffrwdd,
Ei gwel'd hwy'n myn'd i'r gwaelod, mawr syndod yno
oedd.

8 Daeth yno wr bonheddig yn fuan tua'r fan,
Gan geisio gwneud ei orau, i godi rhai'n i'r lân,
Fe achubwyd, do, gryn lawer ond deg a safodd 'nol,
Fe welwyd un yn boddi a'i blentyn yn ei gôl.

9 'Roedd yno dair o ferched, tair cyfnitherder o'r un fryd,
Yn moli a chanmol Iesu wrth fyn'd i'r cwrdd o hyd,
Fe ddarfu'r tair i soddi, a landia yr un pryd,
Oddi yma i'r trag'wyddoldeb, a gadael hyn o fyd.

10 'Roedd yno wr priodol, a chanddo ddau o blant,
A'i wraig e' oedd yn feichiog pan aeth o'r byd i bant,
Hi syrthiodd bron yn farw, pan clywodd am y bâd,
A chlywed y blant bychain yn galw am eu tad.

11 'Roedd yno ferch a'i chariad, a rhai'n mewn bwriad
mawr,
Nid oedd dim dau mwy glanwedd a llonwedd ar y
llawr,
Hi syrthiodd lawr i'r dyfnder, fe neidiodd ar ei hôl,
Fe'i cariodd megis plentyn, am gettyn yn ei gôl.

12 Fe'i cariodd hi yn agos nes dyfod at y tir,
Ac yno bu ef ddwy waith o dan y dw'r yn hir,
Yn ei gŵn fe gydiodd, fe dorodd yn ei law,
A soddodd hi i'r gwaelod, nes oedd y mab mewn braw.

13 'Roedd rhai'n ar bwynt priodi y Mercher ar ol hyn,
Ond yn lle cael ei phriodas, ei hangladd ga's yn syn;
Y mab a oedd yn gwaeddi ar ol ei gangen gu,
Pan syrthiodd hi yn bruddaidd i lawr i'r dyfnder du.

14 Bydd hawdd gan lawer farnu trwy dd'od eu diwedd
trist,
Eu bod yn fwy eu pechod, ond credwch eiriau Crist,
Am ddeunaw yn Siloam pan syrthiau'r twr i lawr,
A'i taro oll yn f[illegible]ol o dan y muriau mawr.

15 Fe farnodd llawer rhei'ni i raddau yn rho bell,
Ond Crist attebai iddynt 'd 'ych chwithau ddim yn well,*
Am hynny nawr 'styriwn na farnwn waith ein Duw,
Ni's gwyddom o ba angeu i cawn ni farwol friw.

16 A'r cyrph i gyd a ffeindiwyd, fe'i rhoddwyd yn y bedd,
Mae llawer o'u perth'nasau yn salaidd iawn eu gwedd,
O byddwn ninnau barod bob diwrnod yn ddilai,
A gweddiwn ar yr Arglwydd am faddeu ein holl fai.

17 Os cawn ni Grist yn gyfaill bydd fwy o werth na'r byd,
Pan byddo'r dwylo'n crynu a'r traed yn curo 'nghyd,
Mae ein hoes yma'n darfod, bob diwrnod is y nen,
Mofynwn am y Prynwr fu'n dioddef ar y pren.

18 Ni's gwyddom ni pa angau a dor ein hoedel frai,
Ond marw'n yr Arglwydd sy'n dedwydd o bob rhai,
Gobeitho eu bod nhw' heddyw o fewn 'r nefoedd wen,
Yn canu Haleluia yw enw byth, Amen.

* Luc xiii. 4, 5.

---

*Enwau y rhai a Foddodd.*

WILLIAM BEDDOE, Crydd,
GEORGE BEDDOE, ei wyr,
RICHARD THOMAS, Crydd,
JOHN ROGERS, Teiliwr,
MARY DAVID,
MARY WILLIAMS,
ELIZABETH LEWIS, tair Cefnithder,
ELIZABETH JOHN,
LLEWELLYN THOMAS,
ELIZABETH JONES.

---

DIWEDD.